**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAUCOFNODION:**

**Dyddiad:** 8fed Mai 2001
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Val Feld a John Griffiths**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi: LEG-11-2001 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mai 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau iddynt yn y cyfarfod diwethaf ystyried **Gorchymyn Clwy’r Traed a’r Genau (Darganfod Gwerth) (Cymru) (Rhif 4) (LC220)**. Ymddangosai fel pe bai modd adrodd yn ôl ynghylch y Gorchymyn o dan Reol Sefydlog 11.5 oherwydd credwyd bod y cyfeiriad yn yr Atodlen at "wartheg sy’n bridio" gan gynnwys "lloi un mis oed neu’n iau na hynny" yn peri dryswch. Dosbarthwyd copi o’r llythyr a anfonwyd at Mr Jones i’r aelodau.

2.2 Hefyd atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau iddynt yn y cyfarfod diwethaf ystyried papur drafft a baratowyd gan Mr Turnbull mewn ymateb i’r papur cyfreithiol "Barn" ar y cyd ar gyflwyniad y Pwyllgor i Grwp Adolygu Gweithdrefnau’r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno papur Mr Turnbull i’r Grwp Adolygu fel ymateb y Pwyllgor ar y papur hwnnw. Cafodd hyn ei wneud.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC234: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 5) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC234. (Adroddiad).

**LC235: Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i'w codi yr oedd angen eglurhad pellach arnynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

- Ym mharagraff 4, Rheoliad 2(2) cyfeiriwyd at y "Rhan honno" ond ni chyfeiriwyd at "Rhan" yn flaenorol yn y paragraff.
- Cyfeiriodd Rheoliad 2(3) at "gynhyrchion cig" ond nid eglurwyd pa ddiffiniad y dylid ei ddefnyddio.
- Rheoliad 3(4). Ym mharagraff (3) a fewnosodwyd nid oedd yn glir yn syth a oedd y dull marcio dwbl ym mharagraff (b) yn ddewisol neu a oedd meini prawf eraill a oedd ei wneud yn ofynnol i ddefnyddio'r dull marcio yn hytrach na'r gofyniad hwnnw ym mharagraff (a).

3.6 Cytunodd y Pwyllgor i weithredu'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Yn ôl y ddarpariaeth hon, cyn adrodd yn ôl i'r Cynulliad bod angen iddo roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, mae'n rhaid i'r Cadeirydd yn gyntaf hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud adroddiad o'r fath a rhoi'r cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/ Clerc.**

**LC236: Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.8 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. O dan adran 63(1) Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 gellir defnyddio'r pwer i lunio rheoliad mewn perthynas ag "ardal ragnodedig" yn unig. Er ei fod yn glir, mewn termau cyfreithiol, y gallai Cymru gyfan fod yn "ardal ragnodedig" codwyd y cwestiwn, wrth ddeddfu ar y ddeddfwriaeth hon a oedd y Senedd wedi ystyried y posibilrwydd y gallai "ardal ragnodedig" olygu gwlad gyfan. Roedd y Pwyllgor o'r farn fod hyn yn ddefnydd anarferol ac annisgwyliedig o'r pwer (Rheol Sefydlog 11.5(1)).

3.9 Cytunodd y Pwyllgor felly i weithredu'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Yn ôl y ddarpariaeth hon, cyn adrodd yn ôl i'r Cynulliad fod angen iddo roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, mae'n rhaid i'r Cadeirydd yn gyntaf hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud adroddiad o'r fath a rhoi'r cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad pa sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r rheoliadau hyn. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

**LC237: Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) 2001**
3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.11 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y dyddiad dod i rym ei hepgor o frig y Rheoliadau ac o Gymal 1(1). Gan fod hyn yn fân wall drafftio, cytunwyd y dylid ei ddiwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwall yn y modd hwn.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC237 (Adroddiad).

**LC238: Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001**
3.13 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.14 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- Caiff Rheoliad 2(1) ei ddiffinio fel "unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Reoliad yn y Cymunedau Ewropeaidd y cyfeirir atynt yn Atodlen 1…". Fodd bynnag, mae atodlen 1 hefyd yn cyfeirio at Ddeddfau a Phenderfyniadau.
- Yn llinell 5, Rheoliad 2(1) dylid diwygio "dadansoddiad" i "dadansoddwr".
- Ceir dryswch dros ystyr y diffiniad o "ranbarthau penodedig" yn Rheoliad 2(1), Rheoliad 13(1) ac Atodlen 4.

Gan mai mân wallau drafftio oedd y rhain, cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwallau hyn yn y modd hwn.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC238 (Adroddiad).

**LC239: Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodwyd) (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.16 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC239. (Adroddiad).

**LC240: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.19 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.20 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC240. (Adroddiad).

**LC241: Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.22 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.23 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC241. (Adroddiad).

**LC242: Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchmynion Drafft) (Corfforaethau Addysg Bellach) (Cymru) 2001**

3.25 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.26 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- Roedd angen eglurhad pellach ar Reoliad 2(c) ynglyn ag a oedd ail hanner y ddarpariaeth yn berthnasol i sefydliad newydd yn ogystal â sefydliad sy'n bodoli eisoes.
- Yn Rheoliad 8(1) ni roddir teitlau llawn i'r rheoliadau y cyfeirir atynt.

Cytunwyd bod y rhain yn fân wallau drafftio ac y dylid eu diwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwallau hyn yn y modd hwn.

3.27 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC242 (Adroddiad).

**LC243: Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001**
3.28 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.29 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad o roi sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.30 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn drafft fel LC243 (Adroddiad).

**LC244: Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.31 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.32 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.33 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC244. (Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**
**Llythyr gan Carwyn Jones, AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, dyddiedig 3 Mai 2001**
***Rheoliadau Cynllun Ffermio Organig (Cymru) 2001 (LC180)***
4.1 Dywedodd y Cadeirydd iddo dderbyn ymateb gan Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig i lythyr a anfonodd ar 3ydd Ebrill mewn ymateb i lythyr Mr Jones dyddiedig 22 Mawrth ynglyn â'r **Rheoliadau Cynllun Ffermio Organig (Cymru) 2001** (LC180). Bwriadwyd y Rheoliadau er mwyn caniatáu i'r Cynulliad ddarparu cymorth wrth gwmpasu daliadau

trawsffiniol penodol ond nid ymddangosai fod darpariaeth yn berthnasol i ddaliadau o’r fath. Hefyd, roedd y Rheoliadau’n berthnasol i godau ymarfer a gyhoeddwyd "o dro i dro". Fodd bynnag, ymddangosai fod hyn yn torri’r egwyddor sefydledig (Arfer Offerynnau Statudol, paragraff 2.48) bod yn rhaid i gyfeiriadau at ddogfennau "allanol" fod ar ddogfennau gwirioneddol sy’n bodoli eisoes, ac nid at ddogfennau sy’n bodoli "o dro i dro".

4.2 Yn ei lythyr nododd Mr Jones y cytunwyd nad oedd y Rheoliadau fel y’u gwnaed yn cynnig yr hyblygrwydd sy’n ofynnol er mwyn caniatáu ceisiadau mewn perthynas â daliadau trawsffiniol ac y cynigiwyd cyflwyno Rheoliadau diwygiedig i ymdrin â’r pwynt hwn. Byddai’r diwygiadau hefyd yn gwella’r broses o ddrafftio’r rheoliadau mewn perthynas â’r codau ymarfer.

4.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC180 (Adroddiad)

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 15fed Mai 2001.

**Adroddiadau a Atodir**

- LC180 (Adroddiad)
- LC237 (Adroddiad)
- LC238 (Adroddiad)
- LC239 (Adroddiad)
- LC240 (Adroddiad)
- LC241 (Adroddiad)
- LC242 (Adroddiad)
- LC243 (Adroddiad)
- LC244 (Adroddiad)